

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 204

Pris 80c

Mis Gorffennaf 2018



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Dosbarthu a Golygydd Llundain:** Mary Jones

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebion: Huw Rowlands, Menter Iaith **Gwefan:** menter.caerffili.cymru/ 

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Oedfaon Gorffennaf ac Awst Capeli Cymraeg y Cwm

Bedyddwyr Tonyfelin

Gorffennaf

1af 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
8fed 10.30 a 6.00 : Dim oedfaon oherwydd y Felathon
15fed 10.30 a 6.00 : Yn Bethel
22ain 10.30 a 6.00 : I'w drefnu
29fed 10.30 a 6.00 : yn Bethel

Awst

5ed Oedfa a chymanfa ganu'r Eisteddfod
12fed 10.30 : Gareth Hughes 6.00 : I'w drefnu
19fed : 10.30 a 6.00 : Maldwyn Jones
26ain : 10.30 a 6.00 : yn Bethel

Annibynwyr, Bethel

Gorffennaf

1af 10.30 Parchg. Lona Roberts
8fed Dim gwasanaethau - Felathon.
15fed 10.30. Gareth Hughes. 6 o.g. Ray Vincent.
22ain 10.30 a 6 o.g. Tonyfelin
29ain 10.30 a 6 o.g. Peter Dewi Richards

Awst

5ed Gwasanaeth Eisteddfod.
12fed 10.30 a 6.o.g. Tonyfelin
19eg 10.30 a 6 o.g. Tonyflin.
26ain 10.30 Robert Owen Griffiths 6 o.g. June Maxwell.

Penuel, Rhymni

Gorffennaf

Mr Geoff Leyshon
Mr Gwilym Dafydd
Parch Evan Morgan
Rev Michael Mortimer
Parch Evan Morgan

Awst

Parch Tudor Jones
Parch Aled Thomas
Rev Michael Marsden
Rhydd

Capel y Groeswen

8fed o Orffennaf Mrs Jill Shelton 3:00


12fed Mr Gareth Hughes 3:00



Llongyfarchiadau i'n cwmni drama lleol am ennill ei ffordd i lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst. Daeth nifer dda o garedigion Cwmni Cwm Ni i'w

cefnogi yn neuadd ddrama Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar safle'r Gwyndy. Yno, nos Lun yr 21ain o Fai, perfformiodd y Cwmni o flaen y beirniaid cenedlaethol Gwenan Mair a Gwynedd Hughes Jones. Ac yn fuan wedi hynny cafwyd gwybod y bydden nhw'n un o bum cwmni i ymddangos ar lwyfan Theatr y Maes wythnos yr Eisteddfod.

Dyw'r Cwmni ddim yn ddieithr i gystadlu yn y Genedlaethol. Gwnaed hynny nifer o weithiau gan gipio'r wobr gyntaf yn 2003 a 2010. Trefn cystadleuaeth chwarae drama yn y Genedlaethol bellach yw bod pob cwmni yn ymddangos yn ei dro ganol dydd dros gyfnod o bum niwrnod. Drama gywaith yw'r arlwy eleni. Gweithiodd yr actorion ar eu profiad o fod yn rhan o gwmnïau drama. Ond mae sefyllfa'r cwmni a bortreadir yn wahanol iawn i ffawd Cwmni Cwm Ni. Mae'r criw yn portreadu helynt cwmni nad yw'n profi lawer o lwyddiant. Ychydig o arian sydd yn y banc; prin yw'r bobol sydd yn dod i'w gweld - ac mae nifer o'r rheiny yn gadael cyn y diwedd. Ar ben hyn i gyd bu'r profiad o lwyfannu pantomeim yn drychineb llwyr wrth i rai o'r actorion ifanc greu difrod ac anhrefn.



Nage, nid adrodd hanes ein cwmni lleol mae'r ddrama hon! Ond yn hytrach actio comedi sy'n ymylu ar ffars wrth greu portread doniol o hynt ac, yn bennaf, helynt y cwmni dychmygol.

Aelodau'r cwmni, wrth gwrs, yw: Ann Lewis, Mary Jones, Tracey Neale, Hywel Davies, Denzil John, Fred Brooks a Ben Jones gydag Allan Cook yn Cynhyrchu ac Annette Dutt yn cofweinyddu. Mary Jones, Tracey Neale a Fred Brooks sy'n bennaf gyfrifol am y gwisgoedd a'r props.



Dewch i'w cefnogi yng Nghaerdydd ym mis Awst. Am **11 o'r gloch fore Iau, y 9fed o Awst** fydd Cwmni Cwm Ni yn actio yn Theatr y Maes. Ac fe fydd y Theatr yn Ystafell Ymarfer 3 yng Nghanolfan y Mileniwm.

Dyma'r drefn os ydych am ddilyn y gystadleuaeth gyfan. Traddodir y feirniadaeth a chyhoeddir yr enillwyr yn fuan wedi perfformiad fore Iau.

Sul, Awst 5ed: Y Gwter Fawr
Llun 6ed: Licris Olsorts
Mawrth 7fed: Doli Micstars
Mercher 8fed: Cwmni Maes
Iau 9fed: Cwmni Cwm Ni

Bydd rhai o ddarllenwyr *CwmNi* wedi darllen yr adroddiadau yn y wasg am y 100 o fenywod a ddewiswyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Cymru am eu cyfraniadau i fywyd y genedl mewn amryw o feysydd – y celfyddydau, addysg, busnes, gwleidyddiaeth ac yn y blaen. Lansiodd y rhestr mewn cyfarfod arbennig yn y Senedd ym mis Mai, ac mae i'w gweld ar wefan y Rhwydwaith.



Mererid Hopwood

Bydd rhai ohonoch wedi darllen hefyd y feirniadaeth a fu ar y rhestr – ac mae'n deg i ofyn sut y gall rhestr sy'n cynnwys Eluned Phillips anwybyddu Christine James a Mererid Hopwood. Ond mae unrhyw restr o'r fath yn debyg o ddenu beirniadaeth. Mae'r bobl yr ydym yn dewis eu cofio, eu canmol, a'u troi'n arwyr neu'n arwresau yn dweud llawer iawn amdanom ni a'n blaenoriaethau.

Yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, mae casgliad o ddwsin o gerfluniau o farmor, a gomisiynwyd ganrif yn ôl, yn dilyn cystadleuaeth yn y *Western Mail*. Mae un ar ddeg o gerfluniau, sy'n cynnwys tri chlerigwr (Dewi Sant, Gerallt Gymro a'r Esgob William Morgan), pedwar tywysog neu frenin (Hywel Dda, Llywelyn Ein Llyw Olaf, Owain Glyndŵr a Harri VII), dau fardd (Dafydd ap Gwilym a Phantycelyn), un cadfridog (Syr Thomas Picton) ac un fenyw (Buddug).

Beth fyddai canlyniad cystadleuaeth ymhlith darllenwyr *CwmNi* heddiw, tybed? Cynhaliwyd cystadleuaeth gan Culturenet Cymru yn 2004 i ddewis 100 o arwyr Cymru. Digon tebyg oedd rhai o'r dewisiadau - Owain Glyndŵr

a'r Esgob William Morgan yn yr ugain cyntaf o hyd – a Llywelyn ap Gruffudd yn agos iawn atynt (21). Daeth Dafydd ap Gwilym yn 32, Hywel Dda yn 43, Dewi Sant yn 46, William Williams yn 47, Harri VII yn 53, Gerallt Gymro yn 85. Nid oedd Syr Thomas Picton na Buddug yn ymddangos o gwbl, ac roedd arwyr gwahanol eu natur wedi eu cynnwys yn y 50 cyntaf – y sosialydd Robert Owen; y gwyddonydd Alfred Russel Wallace; Michael D. Jones, sylfaenydd y Wladfa; John Frost, arweinydd y Siartwyr a'r athronydd Dr Richard Price. Hyd y gwelaf i, does dim un dyn na menyw o Gwm Rhymni wedi eu cynnwys yn y naill restr na'r llall.

Ac mae rhestr 2004 yn cynnwys enwau menywod o Gymru – rhai cyfarwydd a chyfoes megis Catherine Zeta-Jones, Tanni Grey-Thompson, Cerys Matthews a Laura Ashley, ond hefyd Kate Roberts, Gwen John, Megan Lloyd George, a Margaret Haig Thomas. Serch hynny 10 yn unig sydd yn y rhestr o 100 a does dim un yn y 10 uchaf – canran tebyg i un 1912.

A'r dyfodol? Er taw Idris Davies a Tommy Cooper yw'r unig frodorion o'r cwm sy'n cael sylw ar y we, mae rhestr o gyn-ddisgyblion enwog Cwm Rhymni i'w chanfod yno: saith hyd yn hyn, a menywod yw dwy ohonynt – Natasha Harding a Sali Hughes. Canran ychydig yn decach, efallai, yn enwedig o gofio i'r ysgol gael ei hagor ym 1981, a gobaith i'r dyfodol!



Natasha Harding

Gwersyll yr Urdd
Llangrannog
Llandysul
SA44 6AE

21 Mehefin 2018

Annwyl gyfeillion



Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at ddigwyddad y bydd Urdd Gobaith Cymru yn ei chynnal yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd fis Awst eleni.

Hiraethu am hafau hyfryd Llangrannog

Ar nos Iau, 9fed o Awst am 5.30yp ym Mhabell y Cymdeithasau (Y Senedd), Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd bydd trafodaeth banel yn rhannu atgofion a straeon am hafau a dreuliwyd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog, boed hynny fel staff, swog neu breswylwr.

Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad cynnes i holl ddallenwyr y papur i ymuno yn y sgwrs drwy rannu eu straeon. Croeso i bawb ddod a lluniau ac atgofion a bydd posib i ni gofnodi'r rhain fel rhan o broses archifo'r Urdd.

Yn cadeirio fydd Angharad Mair gyda'r panel yn cynnwys Steffan Jenkins (cyn-gyfarwyddwr y gwersyll), Ian Gwyn-Hughes a nifer o gyn-wersyllwyr, swogs, staff ac enwogion eraill.


Os hoffech gadarnhau eich presenoldeb gellir gwneud hynny drwy ebostio

llangrannog@urdd.org

Fel y gwyddoch efallai, yn 2022 bydd yr Urdd yn dathlu ein canmlwyddiant felly dyma gyfle i edrych yn ôl ac edrych ymlaen ...

Diolch

Lowri Jones, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog




Cymal Caerffili
06.07.18
17.30 – 19.30
Cofrestrwch – Tocyn.Cymru
“Ras yr Iaith Caerffili”
neu drwy Menter Caerffili

Dechrau – Tu fas i Gastell Caerffili



Menter Iaith Sir Caerffili - 01443 820 913 - huwrowlands@mentercaerffili.cymru

“Parry Siop Losin”



Pleser o’r mwyaf oedd gwylio “Heno” ar S4C yn gynharach eleni gan fod Eddie Parry o Aberaeron yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. A’r hyn oedd o ddiddordeb arbennig i wylwyr ardal “Cwmni” oedd y ffaith mai tad Evelyn Williams, Lon y Llyn, Caerffili, yw Mr Parry.

Roedd i weld yn mwynhau ieuchyd da ac yn ymhyfrydu yn ei ferched, Evelyn a Jean; ei wyresau Rhian a Nia (merched Evelyn) ac, erbyn hyn ei or-wyrion Lydia ac Eliott.


Cofia Mr Parry adeg pan nad oedd ceir ar yr heolydd a’r tai heb drydan a heb ddŵr. Mae ei gof cystal ag un hanner ei oed ac mae yn hoff iawn o adrodd stori. Mae’n gallu cofio adeg pan oedd porthladd Aberaeron yn brysur iawn a hynny tan y 1930au. Cofia fel roedd e a phlant eraill yn rhedeg i fyny ac i lawr tomen o *chippings* yn y porthladd.

Bu ef a’i frawd Hubert yn gweithio yn y Ffatri Wlân, lle bu galw mawr am y brethyn ac mae wedi gwneud model o’r felin a chofnodi’r hanes mewn llyfr. Ac roedd y siop yn Albert Street yn gyrru brethyn lan i Lundain ar gyfer gwneud dillad. A’u brethyn nhw a ddefnyddiwyd ar gyfer gwneud *blazers* gwyrdd yr Urdd yn nyddiau cynnar y mudiad.

Ar ôl gwerthu’r ffatri wlân, prynodd Eddie a’i frawd ddwy siop yn y dre - siop felysion a siop groser. Roedd e a’i wraig yn rhedeg y siop felysion ar y sgwâr yn Aberaeron am dros ugain mlynedd; mae pobol Aberaeron a’r ardal yn ei gofio fe fel “Parry Siop Losin”. Mae llawer yn cwrdd ag e ar ei daith i brynu’r papur dyddiol ac yn sgwrsio a rhannu eu hatgofion am y siop.

Mae wedi dilyn pob math o chwaraeon trwy ei oes a nawr mae’n treulio bron pob dydd yn gwylio chwaraeon ar y teledu. Mae hefyd yn hoff iawn o ganu corawl a chaneuon Cymreig ac yn cael blas ar wyllo rhaglenni ar S4C fel “Dechrau Canu, Dechrau Canmol”. Gobeithiwn y bydd e’n dal i fwynhau'r rhain am flynyddoedd i ddod.

Clwb Llyfrau Cwmni – Syllu ar Walia’ gan Ffion Dafis



Awdur mis Mehefin oedd yr actores a chyflwynydd teledu a radio, Ffion Dafis, neu “Ffion Gwallt”, yr un gyda’r mwng cyrliog coch adnabyddus. Yn wir, os dych chi’n edrych yn fanwl ar lun clawr ei llyfr, fyddwch chi’n gweld y gwallt enwog’na wedi’i ffurfio o frawddegau, neu rannau o frawddegau, megis “Paid a dweud wrtha i sut mae byw” ac “eira yn gorchuddio’r waliau”. Mae wyneb Ffion yn gyfarwydd i ni o sawl cyfres teledu, o “Amdani” yn ystod y 90au, oedd yn dilyn hynt a helynt tîm rygbi merched, i “Rownd a Rownd” a’r ddrama wleidyddol “Byw Celwydd” yn fwy diweddar. Ac yng Nghastell Caerffili y llynedd, Ffion chwaraeodd ran Lady Macbeth.

Ceir casgliad o ysgrifau gwahanol yn y llyfr hwn, gan gynnwys straeon byrion, ysgrifau teithiol a deialog, sy fel drama fer, ar y diwedd. Roedd rhai darnau’n apelio yn fwy na’i gilydd at aelodau’r



clwb a theimlai rhai bod yr arddull yn anghyson ac weithiau’n ddryslyd. Ond ar y llaw arall roedd rhai ohonom yn gallu uniaethu â llawer o’i theimladau a phrofiadau



Posau'r Plant

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun o gôr?



L	U	R	A	F	E	L	D	I	T	H
A	R	L	U	N	I	O	R	E	Y	
W	D	I	O	F	Y	W	A	L	F	
S	C	R	E	F	T	I	M	I	O	
P	O	I	S	N	W	A	D	R		
C	R	G	H	O	W	Y	B	C	I	
D	E	F	D	L	M	O	P	R	A	
G	O	R	S	E	D	Y	A	W	D	
U	A	R	F	Y	L	W	U	M	A	
B	A	N	D	I	A	U	N	A	C	

Byddwn yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. Mae DEUDDEG o eiriau yma sy'n ymwneud â'r Eisteddfod. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

CREFFT	CADAIR	CORON
DRAMA	DAWSIO	CANU
LLEFARU	BARDDONIAETH	
BANDIAU	ARLUNIO	LLYFRAU
	GORSEDD	

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr ar dudalen 17

Yn yr ysgrifau teithiol mae Ffion yn disgrifio ei chyfnod yn India, ble gweithiodd fel athrawes ddrama mewn ysgol, a'i theithiau yn Mongolia a Nepal, gwledydd yr ymwelodd â nhw fel rhan o gyfresi S4C, ac mae'r sgrifennu yn fanwl ac yn ddifyr. Ond mae'r rhan helaeth o'r llyfr yn canolbwyntio ar agweddau mwy personol o'i bywyd a does dim gwadu ei bod hi'n ddewr ac yn agored yn ei disgrifiadau o'i theimladau a'i phrofiadau. Yn wir, mae hi'n dinoethi ei henaid! Mae rhai o'i hatgofion yn boenus iawn, fel colli ei mam i ganser a hunanladdiad ei nain. Hefyd mae hi'n sôn am ei phroblemau gydag alcohol, ei "hyrddiau" o banic weithiau wrth ffilmio a'i phryderon ac amheuan am fod yn ddi-briod ac yn ddi-blant. Ond mae'n hiwmor a chyfnodau hapus hefyd, a llawer o joio yng nghwmni ei ffrindiau a'i theulu, yn arbennig ei neiaint bach.

Er bod y straeon byrion wedi'u sgrifennu yn y person cyntaf, mae Ffion yn dweud yn ei chyflwyniad nad hunangofiant yw hwn ond cymysgedd o'r gwir a'r dychmygol. Felly, mae e lan i ni'r darllenwyr i benderfynu beth ddigwyddodd go iawn ar ôl y Noswyl Nadolig fawr'na pan aeth y twrci ar goll!

gan Jan Penney

Cân Actol Ysgol Gymraeg Caerffili 'Trip i'r Gofod'

Dyma'r gân actol a enillodd yn Eisteddfod Rhanbarthol yr Urdd er mwyn cynrychioli Gwent yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanelwedd adeg y Sulgwyn.



Yng nghanol prysurdeb y
byd heddiw daeth twi't yn
dweud bod trip i'r gofod
ar gael er mwyn
darganfod bywyd gwell.
Ar ôl y panig nad oes dim
i'w wneud yno heb TGCh,
mae'r holl weithgareddau
traddodiadol o chwarae
yn yr awyr agored a
threulio amser gyda
theulu a ffrindiau yn eu
helpu nhw ddarganfod y
gofod tu fewn iddyn
nhw'u hunain yn ystod
sesiwn meddwlgarwch.

Maent yn sylweddoli nad 'cyberspace' yw'r ateb i ddarganfod hapusrwydd.

Cyflwynwyd y neges drwy ganu tonau hyfryd fel, 'New World Symphony', 'Popeth sydd o'n cwmplas', 'Stop in the Name of Love', 'The Wise Man Built his House'.

Mae'r plant yn gofyn, pwy sy'n sgwrsio wyneb yn wyneb? Pwy sy'n ysgwyd llaw ar y stryd? Pwy sy'n sgwennu llythyr at gyfaill? Neb a ddweud y gwir.

Hyd nes bo rhywun yn galw STOP a gofyn a oes bywyd gwell ar estron dir? Yna, gyda symud bywiog hyd a lled y llwyfan mae'n nhw'n adeiladu roced a chodi i'r awyr â llwybr llaethog dan eu traed. Wedi cyrraedd maent yn gofyn, "Beth yw y blaned hon? Dim wiffi, dim trydan, dim lle i "chargo"ffôn?

Cânt gyfle i ymlacio a myfyrio gan annog,
"Darllenwch lyfrau difyr a mwynhewch y pethau bach.
Pawb yn cyfathrebu heb dechnoleg na TI."

A'r penllanw yw bod 'na obaith am y dyfodol mewn gofod personol lle mae'n rhaid gwneud amser i gyfathrebu wyneb yn wyneb ac nid drwy y sgrîn. Nid cyberspace yw'r ateb ond byw mewn realiti.

Difyr a dychanol – da iawn



SUL O FAWL – TONYFELIN a BETHEL, CAERFFILI

Ers nifer o flynyddoedd bellach bu cysylltiad agos rhwng Eglwys Tonyfelin, Caerffili â'r ddwy ysgol Gymraeg o fewn dalgylch y dref. Un o ganlyniadau'r cysylltiad hwn yw'r Sul o Fawl blyneddol a gynhelir ar un dydd Sul yn nhymor yr haf. Hyfryd hefyd yw nodi bod eglwysi Cymraeg y Cwm yn rhan annatod o'r trefniadau a'r mawl.

I oedfa'r bore estynnir gwahoddiad i'r ysgolion cynradd Cymraeg o fewn dalgylch Cwm Rhymni i ymuno gyda ni i ganu mawl i'r Arglwydd. A hyfryd oedd cael croesawu atom blant o 5 o ysgolion y cwm – Ysgol Gymraeg Caerffili, Ysgol y Castell, Ysgol Ifor Bach, Ysgol Bro Allta ac Ysgol Penalltau a hynny ar fore bendigedig o Fehefin. A than arweiniad medrus Anne Evans a chyfeilio meistrolgar Helen Hollyman cafwyd oedfa fywiog a hyfryd. Dewisiwyd caneuon o fawl a diolch am y greadigaeth ac ambell i emyn mwy gweddigar ei naws; nifer o'r rhain yn rhai y byddai'r disgyblion yn eu canu yn y gwasanaethau yn yr ysgolion. Ac i gyd-fynd â chyfeiliant Helen ar yr organ a'r piano, cafwyd cyfeiliant byrfyfyr ar fyrdd o glychau, rhuglenni, maracas, tamborinau, trionglau ac amrywiaeth o ddyfeisiadau eraill, yn fawr ac yn fân, yn gyfarwydd ac anghyfarwydd.

Roedd y cyfanwaith sain mewn harmoni diolch i ddawn Anne i ddewis yr offer cywir i gyd-fynd â'r don a'r geiriau.

Cymerwyd y rhannau arweiniol gan blant Eglwys Bethel, Caerffili a roddodd gyflwyniad a myfyrdod ar heddwch i ni. Amserol iawn oedd hwn o gofio ein bod eleni yn cofio bod can mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gynau dawelu ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gyda'r nos fe ddaeth yr oedolion ynghyd ym Methel dan arweiniad y Parch. Hywel Davies, gynt o Gwmaman, a chyfeiliant organ Peter Jones. Canwyd nifer o emynau ar y thema heddwch a welir yng Nghaneuon Ffydd. Diddorol ac addysgiadol iawn oedd gwrando ar Hywel Davies yn rhoi cefndir rhai o'r emynau a'r emyn-donau i ni. Gwyddai hefyd pa linellau yn rhai o'r emynau hyn a newidiwyd dros y blyneddau. Gorffennwyd gydag *Haleliwia, Haleliwia! Moliant iddo byth, Amen.* – addas iawn ar ddiwedd Sul o ddathlu.

Diolch yn fawr i'r rhai a fu'n trefnu ac yn arbennig i'r athrawon a ymunodd â ni ac a fu'n annog eu disgyblion i ddod hefyd.

Dr Eirian Dafydd



Taith Chweched Dosbarth Cwm Rhymni o amgylch Cymru

Am benwythnos bythgofiadwy! Gadawom ni'r ysgol ar brynhawn Gwener yn ddiweddar gyda'n paciau ar ein cefnau a gwen ar ein hwynebau er mwyn cychwyn ein siwrnai o amgylch Cymru! Ar ôl dwy awr yn morio canu



caneuon enwogion talentog Cymru ar fws mini'r ysgol, cyrhaeddodd ni ein lleoliad hanesyddol cyntaf - cofeb Cofiwch Dryweryn, a rhuthrasom ni i sefyll o flaen y garreg fflamgoch er mwyn tynnu llun cyflym a gwerthfawrogi arwyddocâd y geiriau.

Yna, ymlaen â ni i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth! Cyrhaeddodd ni gyda'n gwynt yn ein dyrnau erbyn 5 y.h. wrth i'r llyfrgell gau ond diolch i Rhodri, derbyniasom groeso a gwasanaeth anhygoel; cawsom ein tywys o gwmpas y llyfrgell fendigedig gan dderbyn y cyfle i weld copïau cynnar o'r Beibl a chopi gwreiddiol o'r *Arwr* a lwyddodd Hedd Wyn (neu'r "Pam Pell") i gyfansoddi yn ystod ei gyfnod yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yr uchafbwynt (i'r athrawon gor-gyffrous!), oedd cael y cyfle i gael cipolwg ar Bryn Fôn, arwr pob athrawes Gymraeg, yn perfformio! Profiadau anhygoel i athrawon yr Adran a disgyblion y Chweched Dosbarth yn y llyfrgell, ac mae'n siŵr fydd pob un ohonom yn ymweld eto yn y dyfodol!

Yna, ar ôl chwilio am gyfnod yn y glaw a'r niwl am gaffi lleol yn nhref Aberystwyth i fwyta sglodion, cytunom ar y Wetherspoon's lleol yn lle. Cyfle arbennig i ymlacio a sgwrsio yn y Gymraeg ymysg ein gilydd, cyn dychwelyd i'r gwesty ar gyfer cwsg cyfforddus yn y Premier Inn!

Codasom yn gynnar y bore trannoeth ar gyfer diwrnod llawn antur! Ar ôl mwynhau brecwast o grempog a siocled poeth yn y siop goffi, dechreuasom grwydro strydoedd hudol tref Aberystwyth, gan gerdded ar hyd y promenâd a derbyn gwybodaeth gan ein hathrawon am bob golygfa a welsom ni, yn enwedig am hanes Dafydd ap Gwilym a'r nofel Dan Gadarn Goncrit. Fe wnaethom gicio'r bar ar ddiwedd y promenâd, hen draddodiad myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, ac ymweld â gweddillion Castell Aberystwyth, ond ni threuliasom ormod o amser yn Aberystwyth gan fod gennym ddiwrnod llawn gweithgareddau o'n blaen!

Felly, nôl ar y bws mini â'n cerddoriaeth Gymraeg, a chychwynnom ar ein taith tua'r Gogledd! Yn gyntaf, at fferm heddychlon Hedd Wyn, yn Nhrawsfynydd! Fe gawsom ein syfrdanu ar ein ffordd wrth yrru trwy fynyddoedd prydferth Eryri! Yna, mwynheuasom baned o de a chacen wrth gyrraedd Trawsfynydd, gan wedyn gael ein tywys o gwmpas Yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn a'i deulu. Am brofiad anhygoel i weld y gegin fach yr oedd ef a'i deulu yn bwyta'u brecwast ynddi, ac i dderbyn y cyfle i weld y Cadeiriau a enillodd yn yr holl eisteddfodau, ond yn bennaf, y gadair ddu, na gafodd y cyfle i eistedd ynddi.



Er y buasai wedi bod yn braf treulio'r holl ddiwrnod yn myfyrio ar hanes y bardd o gwmpas ei fferm, ymlaen â ni i Feddgelert, gan gael cyfle i weld cofeb Gelert a chlywed hanes y chwedl cyn gyrru i'n lleoliad olaf y diwrnod - Caernarfon! Gadawsom ein bagiau yn ein hystafelloedd gwely yn y Travelodge, gan gwrdd eto i gael swper yn nhafarn leol, The Black Boy Inn, profiad newydd o glywed yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol yng nghanol tafarn llawn teuluoedd a ffrindiau!



Bore cynnar eto'r bore canlynol, cwrddasom mewn bwyty lleol er mwyn mwynhau brecwast ar gyfer ein bore olaf, ein platiau'n

llawn bwyd - bacwn, wyau, tost a selsig, ac felly'n boliau'n llawn ar gyfer diwrnod olaf ein taith. Cyn dychwelyd i'r de, teithiasom i Ynys Môn a chael tynnu llun wrth ymyl arwydd enwog Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwl llantysiliogogoch!

Wedyn, nôl dros y bont i Abergwyngregyn er mwyn medru gweld y man honedig edrychodd Siwan allan ar Lanfaes wrth ddyheu am ryddid yn ei thŵr yn ystod y flwyddyn y cafodd ei gosod mewn carchar gan Llywelyn Fawr yn nrama Saunders Lewis, 'Siwan'. Siwrnai hir oedd o'n blaenau nôl i'r de ond ar ein ffordd adref, ymwelom ni â Betws-y-coed, lle seiliwyd y gerdd Walkers' Wood gan Myrddin ap Dafydd, er mwyn mwynhau paned a gweld y coedwigoedd hardd, a diolch byth, doedd dim pagedi creision ar y llawr! Y lleoliad olaf i ni fynd iddo ar ein taith oedd Cilmeri, i weld cofeb Llywelyn ap Gruffudd gan gofio am ei frwydr i sicrhau annibyniaeth i Gymru.

Cyfle euraidd oedd y daith hon i ni ddeall hanes, iaith a thraddodiadau unigryw ein cenedl ac i werthfawrogi bod ein llenyddiaeth yn rhan annatod o'n gwlad.

Jodie Lewis, Blwyddyn 12

Enillwyr yr Urdd

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd dros y Sulgwyn a gwelwyd nifer o ysgolion dalgylch "Cwmni" wedi ennill yr hawl i ymddangos yn y rowndiau terfynol yno.

Ar flaen y gad oedd Aisha Palmer o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sydd yn byw yng Nghaerffili. Cyrhaeddodd brif lwyfan yr ŵyl gan sicrhau'r wobwr gyntaf ar yr unawd gitâr i Flwyddyn 10 a than 19 er mai ond 17 yw hi. Aeth ymlaen hefyd i gyrraedd y drydydd safle yn yr Unawd Telyn ar gyfer yr un ystod oed.

Dyw Aisha ddim yn ddieithr i lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, lle mae wedi ymddangos nifer o weithiau gan ei bod yn gallu canu'r piano yn ogystal â'r gitâr a'r delyn i safon uchel iawn.

Enillodd Nick Francis, yntau hefyd o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni'r wobwr gyntaf yn yr Unawd Llinynnol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10.

Llawenydd mawr oedd gweld i Ysgol Gyfun fwyaf newydd Cymru, sef Ysgol Gyfun Gwent Is Coed o Gasnewydd gipio'r wobwr gyntaf yn y Gân Actol ar gyfer Blwyddyn 7, 8 a 9. Hwb aruthrol i'r egin ysgol.



Clecs y Castell



Diolch i'r gymdeithas rieni
am drefnu te'r prynhawn.

LLongyfarchiadau mawr i'r holl blant
fu'n cystadlu ar faes
Eisteddfod yr Urdd.

Carys a fu'n cystadlu yn yr unawd
telyn a'r llefaru dan 12.
Layla ar y cornet.
Parti Unsain,
Dawnsio gwerin Bl 5 a 6.
A pherfformiad bythgofiadwy gyda
chôr yr ysgol ar lwyfan yr
eisteddfod.
Plant Penigamp!

Staff y Castell wrth eu boddau yng
nghwmnu Mr Urdd.





Pawb yn barod i ddawnsio ac i ddathlu eu Cymreictod yn Ffiliffest.



Criced yr Urdd

Plant blwyddyn 4 yn mwynhau profiadau criced yng nghystadleuaeth yr Urdd .



Mam-gu a enillodd wobr am ddysgu Cymraeg yn 62 oed

Mae mam-gu a ddechreuodd ddysgu Cymraeg yn 62 oed er mwyn iddi allu siarad Cymraeg gyda'i wyrion a'i hwyresau, wedi ennill gwobr genedlaethol.



Mae Marilyn Llewellyn wedi derbyn Gwobr Ysbrydoli! am lwyddo i feistrolï'r iaith a dywedodd bod dysgu Cymraeg am y tro cyntaf wedi "agor drysau i fyd newydd".

Mae'r Gwobrau Ysbrydoli!, a gynhelir ar y 6^{ed} o Fehefin, cyn yr Wythnos Addysg Oedolion (18-24 o Fehefin), yn dathlu cyflawniadau unigolion, prosiectau a sefydliadau eithriadol sydd wedi dangos angerdd, ymrwymiad a sbardun i wella eu hunain, eu cymuned a'u gweithle drwy ddysgu, a hynny dan amgylchiadau anodd yn aml.

Pan ddechreuodd Marilyn, o Gaerffili, ddysgu Cymraeg dair blynedd yn ôl, roedd ond yn gwybod ambell air, ond bellach mae'n siarad yr iaith bob dydd, yn gallu cyfrif i 500 a phan briododd ei merch, rhoddodd ei haraith briodas i'r pâr yn y Gymraeg.

"O'r dosbarth cyntaf un, sylweddolais i fy mod i'n gallu deall mwy o Gymraeg nag oeddwn i'n ei ddisgwyl," meddai'r fenyw 65 oed, a gafodd gyflwyniad cyfoethog i ieithoedd - fe'i ganed yn Nairobi wrth i'w thad wasanaethu yn y Fyddin, lle dysgodd siarad rhywfaint o Swahili, ac mae wedi byw ym Malaysia a'r Almaen.

"Symudais i Gymru yn 11 oed ond doedd Cymraeg ddim yn cael ei hystyried yn bwysig yn fy ysgol a dewisais astudio Ffrangeg yn ei lle. Ar ôl i mi gael dau o blant roeddwn i'n bwriadu dysgu'r iaith er eu mwyn nhw, ond mae bywyd yn brysur ac mae rhywun yn anghofio. Fe wnes i dalu am gwrs Cymraeg drud ar dâp, ond wnes i ddim agor y bocs."

Dair blynedd yn ôl, ailafaelodd Marilyn, sy'n byw ym Mhenyrheol, yn ei huchelgais gan fod ei hwyrion Ffion, 11 oed, a Morgan, 8 oed, mewn ysgol Gymraeg ac roedd am eu helpu gyda'u gwaith cartref.

Gwelodd hysbyseb yn Llyfrgell Caerffili am gwrs Cymraeg a chofrestrodd. Mae bellach yn mynychu dau ddosbarth yr wythnos yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl, sy'n cynnal dosbarthiadau i ddechreuwyr, teuluoedd a phobl sydd am loywi eu Cymraeg.

Y llynedd, ar ôl cwblhau Cwrs Sylfaen, pasiodd Marilyn ei arholiad mynediad CBAC. Mae wedi gwirfoddoli yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae'n mynychu cyrsiau preswyl yn rheolaidd, gan gynnwys un blynyddol yn Llambled, ac mae'n bwriadu dal ati i ddysgu fel ei bod yn dod yn rhugl.

"Rydw i wrth fy modd. Mae wedi agor drysau i fyd newydd i mi ac mae rhai o'r bobl rydw i wedi'u cyfarfod yn ffrindiau gorau i mi nawr," meddai. "Mae cymaint o gyfleodd i ddysgu Cymraeg nawr. Mae fy nghwrs yng Ngholeg Gwent yn costio £60 i mi am flwyddyn ac mae rhai cyrsiau cyn lleied â £10. Mae llawer o aps i'ch helpu, ac mae dysgu Cymraeg wedi hyd yn oed helpu fy hyder gyda thechnoleg.

yn dweud mai dyna'r "peth gorau" iddi wneud erioed

Bellach, mae Marilyn yn siarad Cymraeg mor aml â phosibl, wrth gyfarch rhywun mewn siop gyda 'shwmae' neu bostio neges ar Facebook, ac mae'n mynd â Ffion a Morgan ar y cwrs i deuluoedd yng Nghanolfan yr Urdd, Llangrannog, bob blwyddyn.

"Os oes unrhyw un yn ystyried dysgu Cymraeg yn ddiweddarach yn eu bywydau - ewch amdani a daliwch ati. Peidiwch â bod ofn gwneud camgymeriadau," meddai Marilyn, sy'n defnyddio'r ap am ddim, 'Duolingo', i hogi ei sgiliau sgwrsio rhwng dosbarthiadau a digwyddiadau cymdeithasol. "Mae dysgu Cymraeg yn fy oed i wedi fy ngwneud yn fwy penderfynol a dewr. Mae wedi newid fy mywyd ac mae'n rhan fawr o fy mywyd cymdeithasol. Dyma'r peth gorau i mi ei wneud erioed."

Bydd Marilyn yn derbyn y wobr Dechrau Arni – Dysgwyr Cymraeg (a gefnogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) yng Ngwobrau Ysbrydoli! sydd â'r nod o dynnu sylw at gyfleoedd i barhau i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd fel oedolyn, a dathlu effaith gadarnhaol addysg oedolion ar sgiliau a chyflogadwyedd.



Mae'r gwobrau Ysbrydoli! a'r Wythnos Addysg Oedolion yn cael eu cydlynu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a chefnogwyr eraill, gan gynnwys Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Meddai Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: "Mae enillwyr y Wobr Ysbrydoli! a'u hanesion cwbl ysbrydoledig yn dangos faint y gall dysgu drawsnewid rhywun - beth bynnag fo'u hoedran neu amgylchiadau.

"Mae llawer o'r enillwyr wedi wynebu heriau anhygoel ar eu taith. Dydy hi ddim wedi bod yn hawdd a dylai pob un fod yn falch iawn o'u cyflawniadau. Byddwn yn cymell unrhyw un sy'n cael eu hannog gan eu hanesion i holi am y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd am wella eu bywyd drwy addysg oedolion."

Meddai David Hagendyk, Cyfarwyddwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru: "Mae mynd yn ôl i'r byd addysg yn cynnig manteision enfawr i oedolion. Dengys y dystiolaeth y gall wella eich iechyd, bywyd teuluol, y cyfle i gael gwaith, neu ddychafiad yn y gwaith. Gall cymryd y cam cyntaf yn ôl i addysg oedolion ymddangos yn dalcen caled i ddechrau, ond mae rhywun wastad wrth law i'ch cefnogi ar y daith."

Cynhelir y Gwobrau Ysbrydoli! bob blwyddyn cyn yr Wythnos Addysg Oedolion sy'n dathlu dysgu gydol oes; yn y gwaith, fel rhan o gwrs addysg gymunedol, yn y coleg, mewn prifysgol neu ar-lein. Cyllidir yr wythnos gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop a'i threfnu gan Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru.

Am ragor o wybodaeth am yr Wythnos Addysg Oedolion, ewch i <http://www.gyrfacymru.com/cy/porth-sgiliau/> neu ffoniwch 0800 028 4844 neu dilynwch @skillsgatewaycw.

Colofn Dafydd Islwyn

Agorais focs yn yr atig a dechreuais drefnu'r ffeiliau oedd ynddo. Codais un ffeil a'i hagar ac ynddi yr oedd toriadau papurau am Hedd Wyn. Dechreuais eu darllen a deuthum ar draws dwy erthygl a llungopi o un ohonynt. Y pennawd yn Y Chronicle oedd *"Kitty recalls a Hollywood hero"* ar y 24ain o Fawrth 1994. Pennawd y llall a ymddangosodd yn y South Wales Echo ond ni roddais y dyddiad oedd, *"Poet's relatives pray for Oscars"*. Awdur y ddwy erthygl am gysylltiad Teulu'r Ysgwrn, Trawsfynydd, â Chaerffili oedd Judith Davies.

Ia, cysylltiad Hedd Wyn â'n hardal. Onid ydy enw'r pentref Fleur-de-Lys yn dwyn i go' Y Genedlaethol, Birkenhead, 1917, Eisteddfod y Gadair Ddu? Dyna oedd ffugenw Hedd Wyn yng nghystadleuaeth y Gadair. Un o dri beirniad y gystadleuaeth oedd Y Parchedig J. J. Williams, Treforys, a fu'n weinidog capel Moreia, Rhymni, am chwe blynedd o 1897 i 1903. Y flwyddyn honno cytunodd y ddau feirniad arall mai awdl Hedd Wyn i'r "Arwr" oedd yr orau yn y gystadleuaeth.



T. Gwynn Jones a Dyfed oedd yn cyd-feirniadu ag ef. Flwyddyn ynghynt yn Aberystwyth, roedd J. J. Williams o blaid Cadeirio "Y Fantell Fraith", sef Hedd Wyn. Awdl lafurus oedd hi yn ôl Yr Athro John Morris Jones a chytunodd y beirniad arall, Berw, ag ef nad oedd yn deilwng o'r Gadair. Mor broffwydol oedd beirniadaeth J. J. Williams ym Mangor

1915 pan ddywedodd fod Cadeiriau yn aros "Y Gwynn Gyll" gan fod ganddo wir ddawn a chlust i dlysni gair a brawddeg, ond iddo ddysgu'r hyn oedd gan y beirniaid i'w ddweud wrtho. Y ddau arall oedd John Morris Jones a T. Gwynn Jones!


Y Parchedig J. J. Williams olygodd "Cerddi'r Bugail" a gyhoeddwyd yn Awst 1918. Golygodd gerddi Hedd Wyn yn drwyadl yn enwedig y pennill adnabyddus, "Atgo". Y gwreiddiol oedd,

Dim ond gwenlloer borffor
Ar fin y mynydd llwm.
A sŵn Afon Prysor
Yn canu yn y cwm.

Newidiodd J. J. Williams yr enw "gwenlloer" i "lleuad" a'r drydedd linell i "A sŵn hen Afon Prysor". Newidiadau er gwell yn bendant.

Gweinidog Teulu'r Ysgwrn o 1903 hyd Ionawr 1918 oedd y Parchedig J. D. Richards. Derbyniodd alwad yn 1917 i Gapel Moreia,

Bedlinog. Yno yr oedd yn byw pan enillodd yn Y Genedlaethol, Rhydaman 1922 am gerdd goffâu Tom Mathews, Llandybie, cyn-athro Cymraeg Ysgol Lewis Pengam.



Taniwyd y diddordeb dyfnach yng nghysylltiad Hedd Wyn â Chaerffili pan alwodd perthynas i Mrs Kitty Thomas, Penyrheol, ag Ysgol Gymraeg Caerffili. Ymweliad brysiog ydoedd, chafodd neb gyfle i'w holi am yr hyn a ddywedodd sef ei fod yn perthyn i Hedd Wyn, "Digwyddodd, darfu, megis seren wib"! Ymhen amser dysgwyd bod dau blentyn yn yr ysgol yn perthyn i Hedd Wyn! Roedd Hedd Wyn yn gefnder i hen daid Kelly a Rhys Norman, Bedwas! Roedd tad Mrs Thomas yn ewythr i Hedd Wyn. Tra roedd Hedd Wyn yn gweithio ym mhwyll glo Abercynon ac yn lletya yn 46 Glancynon Terrace, Abercynon, a ymwelodd ef â'r teulu yn Senghenydd?

Pan ddychwelais i'r lolfa, penderfynais fy mod i am wneud llungopi o'r ddwy erthygl a'u gyrru i Oriel Yr Ysgwrn. Gwnes hynny. Derbyniais lythyr oddi wrth Jessica John, swyddog yr Oriel. Meddai "..... Gwyddwn yma yn Yr Ysgwrn bod brawd i Mary Evans, mam Hedd Wyn, wedi symud i Senghennydd i chwilio am waith!" Ymhellach gofynnodd "Fyddwch chi'n dal mewn cysylltiad â Kelly a Rhys? Os felly, byddai'n braf ymestyn gwahoddiad iddynt ddod i weld Yr Ysgwrn rŵan, mae'r gwaith cadwraeth wedi'i orffen. A hefyd i weld Gerald, nai Hedd Wynn, sydd dal yn byw yma ar y fferm!"

Tybed a fedrwn ddod i gysylltiad â Kelly a Rhys er mwyn iddynt gysylltu â'r Ysgwrn. Roedd marc teulu'r Ysgwrn ar Rhys! Gwelais ynddo'r un nodweddion corfforol â mab Enid, chwaer ieuenga' Hedd Wyn.

Mae llawer o ymgyrchu i gael pobl i drin sbwriel yn gyfrifol y dyddiau yma. Eto i gyd, mae sbwriel ym mhob man ac yn aml iawn does neb yn fodlon cyfaddef pwy sy wedi ei ollwng.

Dyma thema cerdd y mis yma, cerdd gan Zac Davies.

Sbwriel

Mae 'na sbwriel ar y bysiau

Mae 'na sbwriel ar y stryd

Ai chi sy'n gollwng sbwriel

O hyd ac o hyd?

Hen bapurau siocled

O flaen drysau'r tai

Peidiwch, peidiwch, peidiwch dweud

'Nid arna i mae'r bai'.

Pwy biau'r tuniau?

Pwy biau'r papur tships?

Pwy ar iard yr ysgol

Sy'n taflu bagiau crisps?

Mae 'na sbwriel ar y bysiau

Mae 'na sbwriel ar y stryd

Ai chi sy'n gollwng sbwriel

O hyd ac o hyd?



ymgyrchu : campaigning

ym mhob man : everywhere

ai chi....? : is it you...?

nid arna i mae'r bai : it's not my fault

yn gyfrifol : responsibly



does neb yn fodlon cyfaddef : no-one is prepared to admit

gollwng : to drop

eto i gyd : nevertheless

o hyd : all the time

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen 7. Sawl un gawsoch chi'n iawn?



Teithiau Cerdded 10:00 – 12:00

- ☐ Mehefin 27 – Llwynycelyn - Cwrdd ym maes parcio ger yr hen dŷ orsaf NP12 0SW
- ☐ Gorffennaf 4 - Tredegar Newydd - Cwrdd ym maes parcio ger parc chwarae cyferbyn a'r Tŷ Weindio NP24 6EG
- ☐ Gorffennaf 11 - Glaswelltiroedd Aberbargod - Cwrdd ym maes parcio Menter Caerffili CF81 9FW
- ☐ Gorffennaf 18 - Coed Duon - Cwrdd wrth fynedfa Asda Coed Duon NP12 0NT
- ☐ Gorffennaf 25 - Parc Penallta - Cwrdd wrth ganolfan addysg Parc Penallta CF82 7GN
- ☐ Awst 1 - Penrhigwaith - Cwrdd ym maes parcio Canolfan Hamdden Markham NP12 0QX
- ☐ Awst 8 - Cyfarfod Cynllunio - Swyddfa Menter Caerffili Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW


*Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.

morganroberts@mentercaerffili.cymru
01443 820913

**EISTEDDFOD y CYMOEDD
19eg o Hydref 2018**

i ddechrau am 4:00

Campws y Gwyndy, Caerffili



Saib@Siloh – gyda'r Salmau

Cyfarfod defosiynol misol– croeso i bawb
10.30 – 11.30 ar fore Llun

2 Gorffennaf – Duw sy'n ein hachub (Salm 40)

6 Awst – Hiraeth am Dduw (Salm 63)



BEIBL BYW

Astudiaeth Llundiaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk / www.siloh.co.uk

CF82 7AF

01443 813617

Dydd Mercher, 18fed Gorffennaf



11.00 y.b. Cwrdd yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd

Cawn sgwrs gan Menter Caerdydd a hefyd
"Bodlon" am eu gwaith

1.00 - pryd ysgafn - Caffi Llaeth a Siwgr ar
safle'r Hen Lyfrgell.

Croeso cynnes
Cyswllt

gaynorw555@gmail.com

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Dydd Gwener 14 Medi
2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspools), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch
ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Pwysî Crwn Kettlebells

gyda / with

Jacqui Spiller

07815 098056

jacspill1@gmail.com

@

Hengoed Community Centre

Park Rd, Hengoed CF82 7LT

£3 y sesiwn / £20 am 10 sesiwn

Suitable for all levels of Welsh — total beginner to fluent and all levels of fitness. Addas ar gyfer pob level o Gymraeg a ffitrwydd.

No need to book, just turn up! / Dim angen bwcio lle, jyst trowch i fyny!

7-8pm

Pob dydd Mercher
Every Wednesday



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

mentercaerffili.cymru

Hanes Cwm Ni

5/7/18 Dave Hale

Effaith y pla ar bobl Cymru +
dathlu diwedd y flwyddyn gyda
Côr Afon Lwyd a Clwb Gwerin
Dysgu Cymraeg Gwent

6/9/18 Thomas Hughes

Arloeswyr Cymraeg Casnewydd

4/10/18 Iestyn ap Rhobert

Hanes y Gymraeg yng Ngwent



Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD

Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702



BWRLWM YN Y BEECH

Tafarn Y Beech Tree,
Ystrad Mynach

Nos Iau Thursday

19:00 ymlaen onwards

Dydd Iau olaf y mis.

Last Thursday of Every
month.



Noson gymdeithasol
dros diod, dewch i
ymuno am sgwrs.
Addas i siaradwyr
Cymraeg o bob allu.

Social night over a
pint, join us for a
sgwrs. Suitable for
Welsh speakers of all
abilities.

01443820913 huwrowlands@mentercaerffili.cymru

mentercaerffili.cymru



